Llywodraeth y DU

# Credyd Pensiwn
## FFEITHLEN

## Beth yw Credyd Pensiwn?

Mae Credyd Pensiwn yn rhoi arian ychwanegol i chi i helpu gyda'ch costau byw os ydych dros oedran Pensiwn y Wladwriaeth ac ar incwm isel. Gall Credyd Pensiwn hefyd helpu gyda chostau tai fel rhent daear neu daliadau gwasanaeth.

Mae Credyd Pensiwn ar wahân i'ch Pensiwn y Wladwriaeth.

Gallwch gael Credyd Pensiwn hyd yn oed os oes gennych incwm arall, cynilion neu fod yn berchen ar eich cartref eich hun.

## Faint gallaf ei gael?

Mae Credyd Pensiwn yn werth, ar gyfartaledd, £3,900 y flwyddyn.

Efallai y cewch help ychwanegol os ydych yn ofalwr, yn anabl iawn neu'n gyfrifol am blentyn neu berson ifanc.

Gallwch ddefnyddio'r gyfrifiannell Credyd Pensiwn i ddarganfod a ydych yn gymwys i Gredyd Pensiwn a faint y gallech chi ei gael: **www.gov.uk/cyfrifiannell-credyd-pensiwn**

## Beth arall y gallaf ei gael os byddaf yn hawlio Credyd Pensiwn?

Os cewch Gredyd Pensiwn gallwch hefyd gael help arall, fel:

- Y Taliad Tanwydd Gaeaf (neu'r hyn sy'n cyfateb yn yr Alban)
- Help gyda chostau gwresogi drwy'r Cynllun Gostyngiad Cartrefi Cynnes a Thâl Tywydd Oer
- Budd-dal tai os ydych yn rhentu'r eiddo rydych yn byw ynddo
- Cymorth ar gyfer llog morgais os ydych yn berchen ar yr eiddo rydych chi'n byw ynddo
- Gostyngiad Treth Gyngor
- Trwydded deledu am ddim os ydych yn 75 oed neu'n hŷn
- Help gyda thriniaeth ddeintyddol y GIG, sbectol a chostau trafnidiaeth ar gyfer apwyntiadau ysbyty, os ydych chi'n cael math penodol o Gredyd Pensiwn
- Gostyngiad ar y gwasanaeth ailgyfeirio Post Brenhinol os ydych yn symud tŷ

## Ydw i'n gymwys?

Rhaid i chi fyw yng Nghymru, Lloegr, neu'r Alban ac wedi cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth i fod yn gymwys i gael Credyd Pensiwn.

Pan fyddwch yn gwneud cais am Gredyd Pensiwn, cyfrifir eich incwm.

Os oes gennych bartner, mae eich incwm yn cael ei gyfrif gyda'i gilydd.

**Mae Credyd Pensiwn yn ychwanegu at:**

- Eich incwm wythnosol i £218.15 os ydych yn sengl
- Eich incwm wythnosol ar y cyd i £332.95 os oes gennych bartner

Os yw'ch incwm yn uwch, efallai y byddwch yn dal i fod yn gymwys i gael Credyd Pensiwn os oes gennych anabledd, rydych yn gofalu am rywun, mae gennych gynilion neu mae gennych gostau tai.

## Sut mae gwneud cais?

Gallwch wneud cais am Gredyd Pensiwn ar-lein: **gov.uk/credyd-pensiwn**

Gallwch hefyd ffonio'r llinell gais Credyd Pensiwn ar **0800 99 1234**

## Pa wybodaeth sydd angen arnaf i wneud cais?

Bydd angen y wybodaeth ganlynol amdanoch chi a'ch partner os oes gennych un:

- Rhif Yswiriant Gwladol
- Gwybodaeth am unrhyw incwm, cynilion a buddsoddiadau sydd gennych
- Gwybodaeth am eich incwm, eich cynilion a'ch buddsoddiadau ar y dyddiad rydych am ôl-ddyddio eich cais iddo (fel arfer 3 mis yn ôl neu'r dyddiad y gwnaethoch gyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth os yw hyn yn gynt)

Bydd angen manylion eich cyfrif banc arnoch hefyd. Yn dibynnu ar sut rydych yn gwneud cais, efallai y gofynnir i chi hefyd am enw eich banc neu gymdeithas adeiladu, cod didoli a rhif cyfrif.

## Sut mae darganfod mwy?

Gallwch ddarganfod mwy am Gredyd Pensiwn trwy ymweld â **gov.uk/credyd-pensiwn**

Mae'r meini prawf cymhwysedd yn berthnasol.